# Y Bwrdd Rheoli

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Ystafell Gynadledda 4B – Tŷ Hywel |
| Dyddiad: | Dydd Llun, 23 Mawrth 2015 |
| Amser: | 13.00 – 15.00 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: MB (05-15)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc (Cadeirydd)<br>Nicola Callow, Pennaeth Cyllid<br>Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu<br>Bedwyr Jones, Pennaeth TGCh<br>Elisabeth Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Mair Parry-Jones, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi<br>Kathryn Potter, Pennaeth Ymchwil<br>Mike Snook, Pennaeth Pobl a Lleoedd<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Comisiwn a'r Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau |
| Ysgrienyddiaeth: | Liz Jardine |
| Eraill yn bresennol: | Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau buddiant

Croesawyd Lowri Williams, a oedd yn y cyfarfod i barhau'r trafodaethau ar strategaeth a chynlluniau Adnoddau Dynol ar gyfer y dyfodol.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Gareth Watts (Pennaeth Dros Dro Llywodraethu ac Archwilio).

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

## 2 Cyfathrebu â staff – Bedwyr Jones

Cytunodd Bedwyr Jones i ddrafftio nodyn ar drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.

## 3 Cofnodion Cyfarfod 9 Mawrth – Papur 1

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth yn gofnod cywir.

## 4 Agenda Gweithlu yr Adran Adnoddau Dynol (parhad)– Eitem lafar

Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Bwrdd Rheoli, a ganolbwyntiodd ar yr agenda Adnoddau Dynol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, cyfarfu Lowri Williams â phob aelod o'r Bwrdd Rheoli i drafod y ffrydiau gwaith arfaethedig mewn mwy o fanylder. Gofynnwyd i'r Bwrdd ddewis pedwar prif flaenoriaeth unigol sydd angen sylw brys, sy'n bwysicach na'r pedwar prif flaenoriaeth allweddol a nodwyd eisoes. Cafodd y rhain eu grwpio, a'r blaenoriaethau a nodwyd fwyaf oedd: Gwerthoedd; Datblygu Rheolwyr; Rheoli Newid; a, Chynllunio Capasiti.

Nodwyd bod angen cynllun datblygu rheolwyr cyson, wedi'i ategu gan y gwerthoedd ac yn seiliedig arnynt, felly mae'n bwysig penderfynu ar y gwerthoedd cywir yn gyntaf. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y Bwrdd Rheoli yw cymryd yr awenau ar hyn, a chytunwyd y dylid llunio set newydd o werthoedd corfforaethol sy'n glir ac yn gryno.

Amlinellodd Lowri syniadau ar gyfer ymgorffori system datblygu rheolwyr o fewn y rhaglen ymsefydlu corfforaethol newydd, a fyddai'n darparu hyfforddiant ar gyfer staff presennol yn ogystal â staff newydd. Byddai'r system hefyd yn cysylltu gyda'r broses PMDR fel y gellir canfod darpar reolwyr a'u hyfforddi cyn iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau rheoli.

**Cam i'w gymryd**: Claire Clancy, Anna Daniel a Lowri Williams i lunio set newydd o werthoedd.

Yn dilyn trafodaethau ynghylch a oedd unrhyw weithgareddau yn y ffrydiau gwaith nad oeddent yn flaenoriaethau, cytunodd y Bwrdd ei bod yn bwysig mynd i'r afael â nhw gan ddilyn trefn ac amserlen gywir. Ar ôl cael y mewnbwn angenrheidiol, bydd Lowri yn diwygio'r cynllun ac yn rheoli'r llwyth gwaith, gan lynu at ddull syml a pharhau gyda beth bynnag sydd eisoes ar waith os yw'n ddigon da.

## 5 Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth – Papur 2

Amlinellodd Dave Tosh ddiben y fframwaith, sef dwyn ynghyd y cyfrifoldebau, strwythurau, polisïau, canllawiau gweithdrefnol a'r prosesau llywodraethu sydd eu hangen i reoli gwybodaeth y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi adolygu'r fframwaith ac roedd yn fodlon arno. Cytunodd y Bwrdd Rheoli ei fod yn glir ac yn hygyrch, ond byddai'n ddefnyddiol i gynnwys cwestiynau cyffredin i gynorthwyo pobl i'w ddeall ac i egluro'r amserlenni ar gyfer er roi ar waith.

Trafododd y Bwrdd y cynlluniau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymysg staff. Bydd Alison Rutherford (Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth) yn cwrdd â Phenaethiaid a gweithio gyda thimau er mwyn eu helpu i fabwysiadu'r gofynion a'u rhoi ar waith. Dywedodd Elisabeth Jones y gallai Sue Morgan a Jon Tomkinson (Cynghorwyr Cyfreithiol) gynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Dywedodd Dave Tosh hefyd fod Jan Koziel (Pennaeth Caffael) yn cynnwys gofynion llywodraethu gwybodaeth yn nhelerau ac amodau contractwyr i'r Cynulliad.

**Camau i'w cymryd**: Aelodau'r Bwrdd Rheoli i godi unrhyw bryderon penodol gyda Alison Rutherford fel y gall hi fod o gymorth.

## 6 Diweddariad ar Risgiau Corfforaethol – Papur 3 ac Atodiadau

Gwnaeth y Bwrdd ei adolygiad cyfnodol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol gan nodi a oedd unrhyw risgiau wedi dod i'r amlwg ag arwyddocâd corfforaethol.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn edrych ar y risgiau yn ymwneud â newid cyfansoddiadol yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill. Hefyd, o ystyried lefel y bygythiad presennol, holodd y Pwyllgor a ddylid rheoli risgiau diogelwch yn gorfforaethol. Byddai'n ystyried hyn ymhellach yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin.

Ystyriodd y Bwrdd Rheoli'r risg niwed i enw da yn dilyn cyhoeddiadau Dydd Gŵyl Dewi ar newid cyfansoddiadol a chytunodd bod y risg wedi pasio ac, o ganlyniad i'r gwaith paratoi a wnaed, roedd canlyniad da i enw da'r Llywydd a'r Cynulliad. Cytunwyd nad oedd angen rhoi newid cyfansoddiadol ar y gofrestr gorfforaethol ar hyn o bryd.

Roedd y materion yn ymwneud â diogelwch wedi cael ymateb ac fe wnaed newidiadau i liniaru'r risgiau, gan gynnwys rhaglen fetio a sesiynau fideo Stay Safe ar gyfer staff. Cytunwyd nad oedd yn risg gorfforaethol ar hyn o bryd, er y dylid adolygu'r mater yn rheolaidd i ystyried a oes unrhyw beth wedi newid.

Cytunwyd y byddai newid cyfansoddiadol, serch hynny, yn bwnc priodol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei archwilio, gan edrych ar y gwaith a wnaed i sicrhau'r canlyniadau yn dilyn y cyhoeddiadau Dydd Gŵyl Dewi ac i sicrhau y gwneir popeth posibl i baratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Bydd Anna Daniel yn paratoi briff ar gyfer hyn ac yn mynychu'r cyfarfod.

## 7 Strategaeth Cyllideb Ddrafft 2016-17 - Eitem lafar

Dywedodd Nicola Callow bod strategaeth gyllideb ddrafft yn cael ei hystyried gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau.

Byddai'r gyllideb hon ar gyfer blwyddyn gyntaf y pumed Cynulliad a byddai angen digon o hyblygrwydd ariannol i sicrhau bod y Comisiynwyr newydd yn gallu mynd ar drywydd eu hamcanion a'u blaenoriaethau. Mae'r strategaeth yn nodi dull gweddol ddarbodus ac yn tynnu sylw at y dewisiadau ariannol sydd ar gael.

Yn dilyn strategaeth fuddsoddi'r Comisiwn, cytunwyd y byddai'r cyllidebau sy'n weddill ar gyfer y Comisiwn hwn yn adlewyrchu'r symudiad ym Mloc Cymru. Fodd bynnag, heb ffigurau dangosol ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru, ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael i fod yn sail i gyllideb y Comisiwn. Y cynnig, felly, oedd i gyllideb weithredol y Comisiwn ar gyfer 2016-17 adlewyrchu gostyngiad o 1.1% mewn termau real o'i gymharu â 2015-16, ond bod penderfyniadau ariannol y Bwrdd Taliadau yn cael eu hariannu'n llawn.

Byddai costau eithriadol sylweddol yn parhau i gael eu trin fel arian ychwanegol, gan gynnwys y gyllideb a neilltuwyd ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad a chostau'r diddymiad. Byddai unrhyw arian dros ben yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

Bydd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn ystyried y strategaeth gyllideb ddrafft ar 26 Mawrth, cyn ei gyflwyno i'r Comisiwn ar 23 Ebrill.

## 8 Unrhyw Fusnes Arall

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon - Mae Kathryn Potter a Nicola Callow yn paratoi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2014-15. Mae drafft cychwynnol yn cael ei baratoi, gyda'r themâu: gwelliant parhaus, newid a gwasanaethau effeithlon.

**Cam i'w gymryd**: Bwrdd Rheoli i ddarparu penawdau blaenoriaeth ar gyfer beth ddylid ei gynnwys erbyn diwedd yr wythnos.

Diweddariad diogelwch – Ar ôl y sesiynau Stay Safe, mae staff Diogelwch a Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau wedi archwilio'r llwybrau ymadael diogel ac ati ar gyfer meysydd gwasanaeth. Cynhaliwyd sesiynau pellach gyda rhai timau i siarad am y materion a godwyd yn y sesiwn Stay Safe, gyda rhagor i ddilyn.

FiYw Cymraeg– Bydd fersiwn Gymraeg FiYw yn cael ei lansio ddydd Gwener 27 Mawrth. Y Cynulliad oedd y cyntaf yng Nghymru i gael system Northgate dwyieithog.

Adnoddau prosiect a rheoli newid - Roedd Dave Tosh wedi dosbarthu cynigion a gofyn am sylwadau ar a oedd yn gwneud synnwyr, a oedd yn gwneud beth oedd ei angen, a beth oedd y camau nesaf.

**Cam i'w gymryd**: Bwrdd Rheoli i ddarparu adborth cyn gynted â phosibl.

Paratoi adroddiad perfformiad corfforaethol – Mae angen dychwelyd y set nesaf o wybodaeth a data ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, ar gyfer yr Adroddiad Perfformiad Corfforaethol, at Kathryn Hughes erbyn 17 Ebrill 2015. Gofynnodd Dave Tosh i benaethiaid gwasanaeth sicrhau eu hunain am gywirdeb ac 'ymdeimlad' y ffurflenni hyn cyn eu hanfon i Kathryn.

Rhagolwg diwedd y flwyddyn – Dywedodd Nicola Callow nad oedd y rhagolygon wedi newid llawer ers 12 Mawrth ac roedd yn rhagweld tanwariant bach ar ddiwedd y flwyddyn. Gofynnwyd i'r Bwrdd Rheoli roi gwybod cyn gynted â phosibl os oedd unrhyw newidiadau yn eu rhagolygon.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli ar 27 Ebrill.